

Cydymdeimlad a Chofion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Mair Owen (Peniel) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Beryl. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt fel teulu, a thros y teuluoedd eraill yn y Fro sy'n galaru am anwyliaid. "Da yw'r ARGLWYDD i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio." (Galarnad 3:25)

Parhawn i gofio hefyd am Rhiannon Evans (Llansannan) sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, a Ceinlys M. Jones (Llansannan) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari. Treuliodd Dylan Roberts (Henllan) ychydig ddyddiau yn Ysbyty Broadgreen, a chafodd David Bibby (Nantglyn) a Gruffydd Jones (Llansannan) lawdriniaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn. Diolchwn am y gofal a gawn yn yr ysbytai a gweddiwn y bydd y dyddiau nesaf yn rhai lle y bydd y cleifion oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Mae'n siwr ein bod fel eglwysi ac fel unigolion yn adnabod sawl un arall sydd heb fod cystal eu hiechyd neu sy'n mynd trwy gyfnod digon anodd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.

Ysgrifen mwy o faint?

Rydym eisoes yn argraffu copïau o Llais Bro Aled sydd â'r ysgrifen naill ai **ddwy** neu **bedair** gwaith yn fwy o ran maint ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydych chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, plis gadewch i Mair wybod. Gallwn argraffu fel bo'r galw ac anfon y copïau hefo'r pecynnau Llais Bro Aled sy'n dod i'r eglwysi, neu wneud trefniant arall yn ôl y gofyn.

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Bydd cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal nos Iau, Tachwedd 14eg. Mwy o fanylion i ddilyn.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (6^{ed}), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Hydref 27^{ain} a Tachwedd 3^{ydd}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi un ag oll i'r oedfaon ym Mro Aled heddiw, a chroeso arbennig i Andras Iago fydd yn pregethu yn Oedfa'r Fro heno. Wrth ei groesawu'n gynnes yn ôl atom, rydym hefyd am barhau i weddio am fendith Duw arno ef a'r teulu wrth iddynt weinidogaethu ymhlith eglwysi Bro Dinbych.

Ddydd Sul (neu heddiw yn dibynnu ar pryd yr ydych yn darllen Llais Bro Aled!), rhag ofn nad ydych wedi clywed, bydd Cymru yn wynebu De Affrica yn rownd gyn derfynol Cwpan Rygbi'r Byd yn Japan. Er cymaint o gyffro sydd yna ymhlith dilynwyr y gamp o Fôn i Fynwy, ymateb digon negyddol a ddaeth o du nifer o'r gwybodusion rygbi. Yn eu golwg hwy, prin yw'r gobaith y bydd Cymru'n ennill y ddwy gêm nesaf a llwyddo i fod yn bencampwyr y byd. Ac wrth gwrs dyna eu gwaith hwy – rhannu eu safbwyntiau ac egluro'r ffordd y maent yn gweld pethau'n datblygu. Ond yn naturiol, nid yw'r safbwyntiau negyddol hyn yn cael eu rhannu gan bawb, ac yn sicr ddim gan garfan a hyfforddwyr tîm rygbi Cymru! Yng ngolwg y capten Alun Wyn Jones, mae ef a'i gyd-chwaraewyr ond 160 munud i ffwrdd o wneud rhywbeth bythgofiadwy. Amser a ddengys pwy yn union fydd yn llygaid eu lle a phwy a broffwydodd yn gwbl anghywir!

Beth mae hyn i gyd yn ei ddangos i ni yw pa mor bwysig yw'r ffordd yr ydym yn edrych ar bethau. Dyma sy'n cael dylanwad enfawr ar ein hymateb i wahanol brofiadau a sefyllfaoedd. Ac mae gan y Beibl gryn dipyn i'w ddweud ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn gweld ein hunain a'r ffordd yr ydym yn dehongli'r hyn sy'n digwydd i ni. Meddyliwch sut mae Paul yn annog Cristnogion sy'n dioddef gyda'i eiriau yn 2 Corinthiaid 4. Hyd yn oed os ydym yn dadfeilio yn allanol, mae adnewyddiad mewnol i'w gael gan Dduw ddydd ar ôl dydd. Ac wrth i'r saint ystyried y bendithion tragwyddol sy'n eiddo i ni trwy fuddugoliaeth Crist, gallwn wynebu colledion a siomedigaethau bywyd heb ofni fod Duw wedi cefnu arnom. Ac mae'r bennod yn gorffen gydag adnod 18 (beibl.net): 'Felly mae'n sylw ni wedi'i hoelio ar beth sy'n anweledig, dim ar beth welwn ni'n digwydd o'n cwmipas ni. Dydy beth sydd i'w weld ond yn para dros dro, ond mae beth sy'n anweledig yn aros am byth!'

I gymaint o bobl, methiant fu dyfodiad Iesu i'r byd gan iddo orffen mewn modd mor erchyll. Ond i'r rhai sy'n credu, Iesu yw'r Achubwr a'r pencampwr, ac mae ei fuddugoliaeth Ef dros bechod a marwolaeth yn sicrhau newid byd (am byth) i bawb sy'n ymddiried ynddo. 'Ond yn y pethau hyn i gyd y mae gennym fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni.' (Rhufeiniaid 8:37) Sut ydych chi'n gweld pethau heddiw?

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 27^{ain}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Andras Iago yn pregethu.
- **Clwb Hydref (Bl. 3-6)** yng Ngholeg y Bala. Y gost fydd £40 sy'n cynnwys bwyd, llety a'r holl weithgareddau (hanner pris ar gyfer yr ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Mae'n bosib mynd am ddiwrnod yn unig am £12.00. Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn rhoi **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.

Llun – Mawrth
28^{ain} – 29^{ain}

- **Penwythnos Ieuentid (Bl. 7-11)** yng Ngholeg y Bala. Y gost fydd £63 (neu £31.50 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn rhoi **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.

Gwener – Sul
1^{af} – 3^{ydd}

- **Bore Bro Aled yn Llanefydd** am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Neuadd yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa. Bydd plant Ysgol Sul Llanefydd yn gwerthu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.

Sul nesaf – 3^{ydd}

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **C.I.C.** (Clwb Ieuentid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

Mercher – 6^{ed}

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Iau – 7^{fed}

- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.

Gwener – 8^{fed}

- **C.I.C.** (Clwb Ieuentid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

Sul canlynol – 10^{fed}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn a bydd Rhodri yn pregethu.

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 27^{ain}

- Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.

Sul nesaf – 3^{ydd}

- **Bore Bro Aled yn Llanefydd** am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Neuadd yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa. Bydd plant Ysgol Sul Llanefydd yn gwerthu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.

Sul canlynol – 10^{fed}

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 27^{ain}

- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00. Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 11.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Mawrth – 29^{ain}

- Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Cefn Meiriadog am 7.00. Pregethir gan y Parch. John Pritchard, Llanberis. Croeso cynnes i bawb.

Sul nesaf – 3^{ydd}

- **Bore Bro Aled yn Llanefydd** am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Neuadd yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa. Bydd plant Ysgol Sul Llanefydd yn gwerthu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.
- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (3^{ydd})**, os gwelwch yn dda.

Sul canlynol – 10^{fed}

- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00.
- Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn cynnal gwasanaeth yn Yr Hen Ddeondy, Llanelwy am 10.30.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 27^{ain}

- Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yno am 11.00.

Sul nesaf – 3^{ydd}

- **Bore Bro Aled yn Llanefydd** am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Neuadd yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa. Bydd plant Ysgol Sul Llanefydd yn gwerthu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.
- Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Cefn Berain am 2.00 pryd y bydd cwis dan ofal Sioned Williams. Edrychir ymlaen hefyd i gael cwmni chwiorydd Llanefydd a Henllan.

Llun – 4^{ydd}

- Cynhelir Cyfarfod Chwiorydd Cefn Berain am 2.00 pryd y bydd cwis dan ofal Sioned Williams. Edrychir ymlaen hefyd i gael cwmni chwiorydd Llanefydd a Henllan.

Sul canlynol – 10^{fed}

- Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30 a'r Ysgol Sul am 10.30. Bydd aelodau Groes yn ymuno yn y gwasanaeth yn Henllan a chaiff yr Ysgol Sul ei chynnal yn Groes am 11.00.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Cefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.